# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Ionawr 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

## 257(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Phrifysgol Caerdydd yn dilyn y cyhoeddiad y bydd 400 o swyddi yn cael eu torri?

I ofyn i'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

Heledd Fychan (Canol De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod buddiannau cefnogwyr rygbi Cymru yn cael eu blaenoriaethu mewn unrhyw gytundebau darlledu yn y dyfodol, yn dilyn adroddiadau diweddar ynghylch cais posibl TNT Sports am hawliau teledu y Chwe Gwlad?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog – Rheol Sefydlog 12.19 (Dadleuon Agored)

(5 munud)

**NDM8805** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 12.19 (Dadleuon Agored)', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Ionawr 2025.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12.19, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid – Cyfalaf Trafodion Ariannol

(30 munud)

**NDM8801** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid 'Cyfalaf Trafodiadau Ariannol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Tachwedd 2024.

Sylwch: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Ionawr 2025.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Cyflogaeth

(60 munud)

**NDM8803** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi’r Trosolwg o'r Farchnad Lafur a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 21 Ionawr 2025.

2. Yn gresynu at y canlynol o dan Lywodraeth Cymru:

a) bod y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru wedi cynyddu am y seithfed mis yn olynol i 5.6 y cant, sef y gyfradd uchaf yn y Deyrnas Unedig;

b) bod y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru wedi gostwng i 70 y cant, sef y gyfradd isaf yn y Deyrnas Unedig;

c) bod gan Gymru gyfradd anweithgarwch economaidd o 25.6 y cant, sef y gyfradd uchaf ym Mhrydain Fawr; a

d) mai Cymru sydd â’r pecynnau cyflog isaf ym Mhrydain Fawr.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu mwy o swyddi yng Nghymru a hybu twf drwy:

a) adfer rhyddhad ardrethi busnes i 75 y cant ar gyfer y sector manwerthu, lletygarwch a hamdden i gefnogi busnesau a diogelu swyddi;

b) cael gwared ar ardrethi busnes i fusnesau bach;

c) sicrhau ffyniant broydd ledled Cymru gyda lefelau cymesur o fuddsoddiad ym mhob rhan o’r wlad; a

d) gweithio gyda Llywodraeth y DU i dalu costau ei chynnydd mewn yswiriant gwladol cyflogwyr ar gyfer busnesau preifat.

Trosolwg SYG o'r Farchnad Lafur

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y ffaith bod problemau o hyd o ran asesu perfformiad y llafurlu yng Nghymru yn sgil y pryderon ynghylch ansawdd yr Arolwg o’r Llafurlu.

Yn cydnabod bod data Arolwg y Llafurlu ar gyfer Cymru ymhlith y data o ansawdd isaf o blith holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr;

Yn cytuno mai'r ffordd orau o ddeall llafurlu Cymru yw ystyried tueddiadau hirdymor ar draws amryfal ddangosyddion, sy'n cynnwys ffynonellau eraill fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, gwybodaeth amser real Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi am weithwyr cyflogedig, data am swyddi'r gwethlu, a data am nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau.

Yn nodi ymhellach fod cyflogau oedolion yng Nghymru a oedd yn gweithio'n amser llawn yn 2024 yn uwch na chyflogau oedolion cyfatebol yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Gogledd Iwerddon, Swydd Efrog a Humber.

Yn croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn creu mwy o swyddi yng Nghymru ac yn hybu twf drwy wneud y canlynol:

a) parhau i ddarparu pecynnau o gymorth ychwanegol ar gyfer ardrethi annomestig sydd werth £134 miliwn eleni ac £85 miliwn y flwyddyn nesaf yn ogystal â chynlluniau rhyddhad parhaol gwerth £250 miliwn yn flynyddol a'r cymorth ychwanegol sylweddol sydd wedi'i ddarparu i fusnesau a threthdalwyr eraill dros y blynyddoedd diwethaf;

b) sicrhau buddsoddiad o'r tu allan a chynyddu nifer y swyddi yma yng Nghymru;

c) cydweithio â Llywodraeth y DU er mwyn adfer y drefn o roi'r hawl i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddiad rhanbarthol ar ôl 2026 a datblygu rhaglen newydd o fuddsoddiadau gyda phartneriaid ar draws Cymru yn dilyn cau rhaglenni gwaddol fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2026; a

d) cydweithio â Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddiwydiannol.

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod economi Cymru wedi dioddef o ddiffyg buddsoddiad a model cyllido annheg o dan Lywodraethau blaenorol a phresennol y DU.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddychwelyd pwerau i wneud penderfyniadau dros gyllid ôl-Brexit yn ôl i'r Senedd.

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i:

a) dilyn argymhelliad yr OECD ar sefydlu asiantaeth hyd braich i hyrwyddo datblygiad economaidd;

b) mabwysiadu targedau newydd ac effeithiol i yrru datblygiad economaidd cynaliadwy yng Nghymru;

c) gweithredu archwiliad sgiliau cenedlaethol, mapio anghenion economi Cymru ar gyfer y dyfodol a chyfateb hyn â buddsoddiad mewn strategaeth ar gyfer sgiliau a hyfforddiant; a

d) adolygu ac adnewyddu'r Warant Pobl Ifanc, gan sicrhau bod gan bob person ifanc fynediad gwirioneddol at waith, hyfforddiant neu gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu sgiliau.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Brexit a'r berthynas â'r UE yn y dyfodol

(60 munud)

**NDM8804** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y bydd hi’n bum mlynedd ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2025.

2. Yn gresynu at y canlynol:

a) yn ôl prosiect Cost Economaidd Brexit, bod y ffurf Brexit caled a ddilynwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU wedi costio hyd at £4 biliwn i economi Cymru;

b) bod Brexit wedi lleihau gwerth allforion Cymru hyd at £1.1 biliwn, a bod cytundebau masnach ôl-Brexit wedi bod yn arbennig o anffafriol i amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu yng Nghymru;

c) y golled bellach i Gymru o hyd at £1 biliwn mewn cyllid strwythurol a chyllid datblygu gwledig Ewropeaidd o ganlyniad i Brexit;

d) y cyfleoedd i weithio, teithio, astudio a byw yn Ewrop y mae pobl yng Nghymru wedi eu colli o ganlyniad i Brexit, yn enwedig pobl ifanc;

e) bod Llywodraeth bresennol y DU wedi methu â mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan Brexit i Gymru a'r DU yn ehangach, ac wedi nodi ei gwrthwynebiad i ailymuno â'r farchnad sengl a'r undeb tollau; a

f) diddymu Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyflwyno deddfwriaeth newydd i hwyluso aliniad ddeinamig rhwng cyfraith Cymru a'r UE;

b) datblygu a mabwysiadu strategaeth Ewropeaidd gynhwysfawr; ac

c) pwyso ar Lywodraeth y DU i geisio ailymuno â farchnad sengl ac undeb tollau'r UE.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod pobl Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd yn y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016.

2. Yn credu y dylid parchu a gweithredu canlyniad refferenda.

3. Yn nodi ymhellach y bydd 31 Ionawr 2025 yn nodi pum mlynedd ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu ailsefydlu cysylltiadau gyda'r Undeb Ewropeaidd o dan Lywodaeth newydd y DU ac yn nodi bod y Brexit caled  a drafodwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU wedi bod yn niweidiol i Gymru, ei phobl a'r DU.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru n anelu at sicrhau bod sylw yn cael ei roi i'r niwed a achoswyd i Gymru wrth i'r DU ymadael â'r UE yn y fath fodd.

3. Yn nodi ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'n effeithiol gysylltiadau gyda phartneriaid Ewropeaidd drwy gadw ein swyddfa ym Mrwsel ar agor, a phenodi Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Ewrop; mae wedi cydweithio â Gweinidogion ac Uwch Swyddogion o wahanol ranbarthau o fewn yr Undeb Ewropeaidd, a hefyd Québec, er mwyn trafod cydweithredu

rhyngranbarthol cynyddol yn ardal yr Iwerydd, a thrwy'r Rhaglen Taith mae wedi dangos ei ymrwymiad parhaus i hwyluso symudedd pobl ifanc.

4. Yn edrych ymlaen at well cysylltiadau gyda'r Undeb Ewropeaidd.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8802** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

A fydd clychau Rhymni yn tawelu? Gwarchod asedau cymunedol yn y cymoedd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2025

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 22/01/2025 i'w hateb ar 29/01/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID A’R GYMRAEG

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

1 OQ62201 **(e)**

Beth y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ei wneud i gefnogi'r cyfryngau Cymraeg?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OQ62196 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar bwysigrwydd amlygrwydd y Gymraeg ar y cyfryngau torfol i'r ymdrech i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

3 OQ62195 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun buddsoddi i arbed?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

4 OQ62221 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ddyfodol fformiwla Barnett?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ62199 **(e)**

Pa gamau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn eu cymryd i leihau baich y cynnydd blynyddol yn y dreth gyngor?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

6 OQ62212 **(w)**

Pa ystyriaeth y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ei roi i neilltuo cyllid yng nghyllideb y Llywodraeth er mwyn digolledu cyrff trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynyr gan y sector gyhoeddus, yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i godi taliadau yswiriant gwladol cyflogwyr?

**Lee Waters** *Llanelli*

7 OQ62223 **(e)**

Sut y bydd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn cyflawni'r pedair blaenoriaeth allweddol a nodwyd gan y Prif Weinidog?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

8 OQ62214 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifenydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth Llywodraeth Cymru i oedolion sy'n dysgu Cymraeg?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

9 OQ62219 **(e)**

Pa effaith y bydd y cyllid cyfalaf ychwanegol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU yn ei chael ar wasanaethau rheng flaen yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

10 OQ62207 **(e)**

Pa ddadansoddiad a wnaed o'r gwerth am arian i Lywodraeth Cymru yn sgil rhoi prydau ysgol am ddim i'r holl blant mewn ysgolion cynradd?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

11 OQ62197 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch ariannu'r gronfa gyfalaf integreiddio ac ailgydbwyso iechyd a gofal cymdeithasol?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

12 OQ62206 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ei drafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â setliadau cyllid yn y dyfodol?

## Y DIRPRWY BRIF WEINIDOG AC YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS NEWID HINSAWDD A MATERION GWLEDIG

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ62198 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â pherchnogaeth anghyfrifol ar gŵn?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

2 OQ62193 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wyrdroi colli rhywogaethau?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

3 OQ62204 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwinllannoedd?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ62218 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â sbwriel yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ62215 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad at gamlesi yng Ngorllewin De Cymru, ac i wella eu budd amgylcheddol?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

6 OQ62209 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn Nwyrain De Cymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ62191 **(e)**

Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i awdurdodau lleol i wella ansawdd aer pobl sy'n byw ger safleoedd glo brig a chwareli?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

8 OQ62213 **(w)**

Pa gefnogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i dyfu morwellt?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

9 OQ62211 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r cynllun ffermio cynaliadwy?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ62203 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ansawdd dŵr yng Ngorllewin De Cymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ62217 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â llygredd afonydd?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

12 OQ62220 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith ar faterion cyfansoddiadol?